YSGOL GYNRADD LLANGYNNWR,
HEOL PENYMORFA,
LLANGYNNWR,
CAERFYRDDIN,
SA31 2NN

FFÔN: CAERFYRDDIN 01267 237841
GWEFAN: www.llangunnor.amdro.org.uk
EBOST: admin@llangunnor.ysgolccc.org.uk

LLANGUNNOR C.P. SCHOOL,
PENYMORFA LANE,
LLANGUNNOR,
CARMARTHEN,
SA31 2NN

TELEPHONE: CARMS 01267 237841
WEBSITE: www.llangunnor.amdro.org.uk
EMAIL: admin@llangunnor.ysgolccc.org.uk

**Ffurflen ganiatâd i alluogi dysgwyr gael mynediad at wasanaethau ychwanegol**

**Ffurflen ganiatâd gwasanaethau ychwanegol Hwb**

Mae platfform Hwb yn rhoi mynediad i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru at ystod eang o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog sy'n cael eu hariannu'n ganolog, i gefnogi'r broses o drawsnewid arferion yn yr ystafell ddosbarth yn ddigidol. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli ac yn gweithredu platfform Hwb.

Mae'n rhaid i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb. Mae hyn oherwydd y bydd y profion darllen a rhifedd gorfodol, sy'n cael eu gwneud ar bapur ar hyn o bryd, yn symud ar-lein, a bydd yn rhaid i bob disgybl eu cwblhau ar y platfform. Er mwyn rhoi manylion mewngofnodi diogel i'ch plentyn, bydd yr ysgol yn anfon gwybodaeth sylfaenol at Lywodraeth Cymru. Bydd y manylion mewngofnodi yn caniatáu i'ch plentyn gwblhau'r asesiadau gorfodol ar-lein, sy'n cael eu galw'n 'asesiadau personol'.

I gael rhagor o wybodaeth am blatfform Hwb a sut mae gwybodaeth am eich plentyn yn cael ei defnyddio, ewch i https://hwb.gov.wales/privacy.

I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiadau personol ar-lein, ewch i http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy&collection-2

**Gwasanaethau ychwanegol**

Os byddwch chi'n cytuno i hynny, gall Llywodraeth Cymru roi mynediad i'ch plentyn at amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, drwy Hwb. Mae'r rhain yn cynnwys amgylcheddau dysgu ar-lein fel Dosbarthiadau Hwb, Microsoft Office 365, Google for Education, ac offer ac adnoddau addysgol perthnasol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol hyn ar gael i helpu'ch plentyn i gael mynediad at adnoddau addysgol. Mae'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu hariannu'n ganolog, ac nid yw'n costio i chi na'ch ysgol gael mynediad atynt na'u defnyddio.

**Dim ond os byddwch chi'n llofnodi'r ffurflen isod i ddangos eich bod yn cytuno y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cewch fynediad at y gwasanaethau ychwanegol hyn.**

**Eich cytundeb**

Os byddwch yn cytuno:

- Byddwn yn dweud wrth Lywodraeth Cymru am sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol
- Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am eich plentyn â'i darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Microsoft a Google Education, er mwyn gallu sicrhau mynediad at y gwasanaethau ychwanegol

Os na fyddwch yn cytuno, byddwn yn dal i rannu gwybodaeth am eich plentyn â Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu manylion mewngofnodi diogel ar gyfer platfform Hwb, ond ni fydd eich plentyn yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau ychwanegol.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r pennaeth yn ysgol eich plentyn.